



Papur Pawb

Pris: 50c

Rhagfyr 2015

Rhif 414



Ffair y Neuadd – tud 4

tud 3

Pobl a Phethe

tud 4/5/8 a 9

Ysgolion

tud 11

Y Gair Olaf

tud 12

Chwaraeon

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr!

Codi cwestiynau am fesurau arafu'r traffig

Yn ystod misoedd yr haf cafodd cyfres o arwyddion cyfyngu cyflymder newydd eu gosod o amgylch Tal-y-bont, y mwyafrif ohonynt yn arwyddion electronaidd, â phaneli solar wedi eu gosod ar nifer.

Mae'r cynllun yn rhan o raglen tair blynedd £4.5m Adran Prifffyrdd Llywodraeth Cymru i wella diogelwch ffordd tu allan i fwy na 40 o ysgolion drwy Gymru benbaladr, a hynny'n bennaf drwy ddefnyddio cyfyngu cyflymder rhan amser 20 milltir yr awr.

Yng Ngheredigion, gosodwyd arwyddion cyfyngu cyflymder rhan amser ger ysgolion Penllwyn (Capel Bangor) a Llanarth yn ogystal â Thal-y-bont, ac mae cynlluniau ar y gweill i osod arwyddion tebyg ger ysgolion Llanfarian, Rhydypennau, Penparc, Padarn Sant, Llangynfelyn, Aberaeron, Llannon, Ysgol Syr John Rhys (Ponterwyd), ac Ysgol Gyfun Penweddig.

Heb os mae angen arafu'r traffig, gan fod y pentref yn cael ei rannu'n ddwy gan un o'r prif-ffyrdd sy'n cysylltu de a gogledd ein



gwlad. Ac mewn ambell fan mae'r ffordd a'r palmentydd yn eithriadol gul, megis rhwng y Llew Gwyn a'r siop.

Ond y cwestiwn sy'n parhau yw ai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o arafu'r traffig?


Yn rhifyn mis Tachwedd o *Papur Pawb*, yng ngholofn y *Gair Olaf*, galwodd Nia Evans, Rhiwlan, am fesurau i arafu'r traffig yr ochr uchaf i Styd y Ffatri, cyn cyrraedd yr arwyddion llachar newydd, ac mae'n cymharu'r diffyg arwyddion wrth agosáu tuag at Tal-y-bont â'r arwyddion sy'n arafu gyrwyr yn raddol wrth ddynesu at Bow Street.

Ond mae'r buddsoddiad yn arwyddion Tal-y-bont yn codi nifer o gwestiynau ymarferol eraill.

Mae dau arwydd â phaneli solar arnynt ar y ffordd i mewn i'r pentref o gyfeiriad Pentre Bach yn wynebu'r coed, ac yn annhebygol o gynhyrchu llawer o drydan – ac yn wir, gwta 6 mis ers eu gosod, mae un eisoes wedi torri.

Ac mae un o'r paneli solar mawr ar yr arwyddion ar Pont Fawr yn taflu cysgod dros banel arwydd arall gan gyfyngu ar ei allu i gynhyrchu trydan, ac ym marn nifer maent yn ddianghenraid ac yn anharddu'r pentref, a hynny er mwyn cynhyrchu

parhad tud 7



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	(01970) 832560
Tynnu lluniau:	Cysyllter â golygyddion y mis	
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	832592 832438
Maes-y-deri:	Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont	832483
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	832498
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Tre Taliesin:	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
Tre'r-ddôl:	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	(01654) 781260
Eglwysfach/Ffwrnais:	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	(01654) 781324
Cadeirydd:	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Is-gadeirydd:	Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832203
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgrifiadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyron

Annwyl Olygydd,

UCAC yn dathlu pen-blwydd yn 75 mlwydd oed

Sefydlwyd UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru) yng Nghaerdydd yn 1940 gan grŵp o athrawon oedd yn gweld yr angen am undeb athrawon fyddai'n ymateb i anghenion penodol athrawon Cymru.

Ar 14 Rhagfyr 2015, bydd UCAC yn dathlu pen-blwydd arbennig yn 75 mlwydd oed.

I nodi'r ben-blwydd, bydd UCAC yn lansio archif ddigidol ar-lein fydd yn cynnwys lluniau, dogfennau, posteri a chyhoeddiadau amrywiol. Mae'r undeb yn galw ar aelodau presennol, cyn-aelodau,

teuluoedd sylfaenwyr yr undeb, ac unigolion sydd â chysylltiad â'r undeb i fynd i dwrio am luniau, dogfennau neu effemera yn ymwneud â'r undeb.

Bydd UCAC yn sganio ac yn cofnodi pob eitem ddaw i law mewn cydweithrediad â Chasgliad y Werin Cymru dros yr wythnosau nesaf, a gyda chaniatâd, yn cyhoeddi'r deunydd ar-lein.

Mae'r undeb yn annog pobl i ddod i gysylltiad â hwy os oes ganddynt ddeunydd perthnasol: 01970 639 950 neu ucac@ucac.cymru.

Gyda diolch.
Cofion cynnes,
Elaine Edwards,
Ysgrifennydd Cyffredinol
UCAC

Dyddiadur

RHAGFYR

- 12 **Taith Gerdded Cletwr** 10.00
'Kindling and Tinder' (Jenny Dingle)
Ffair Nadolig y Cletwr yn Siop Cynfelyn, Tre'r-ddôl, 3.30-6.30
- 13 **Bethel 2** Gweinidog (C)
Nasareth Oedfâr Ofalaeth – Plant
Rehoboth Oedfâr Ofalaeth – Plant
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaidd
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 7.00 Cyngerdd Cantorion Dyfi gyda mins-peis a gwin i ddilyn yn Neuadd Ynyshir
- 14 **Cylch Meithrin Tal-y-bont**
Neuadd Goffa 6.30 Cyngerdd Nadolig a Noson Goffi gyda stondinau
Merched y Wawr Tal-y-bont â'r Cylch Neuadd Isaf, 7.30 'Pobi Bara Artisan' (Arthur Dafis)
- 16 **Gyrfa Chwist Dofednod** 8.00
Cymdeithas Sioe Tal-y-bont
- 17 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 2.00 Gwasaneth Golau Crist gyda phlant Ysgol Llangynfelyn. Te a mins-peis i ddilyn.
Eglwys Sant Mihangel, Llandre 7 Gwasanaeth Carolau gyda Band Pres Aberystwyth
- 19 **Cwrdd â Siôn Corn** (amser i'w gadarnhau) Siop Cynfelyn, Tre'r-ddôl
- 20 **Bethel 2** Gweinidog
Rehoboth 10 Rhidian Griffiths
Eglwys Dewi Sant 5 Gwasanaeth Carolau Teuluol i bob oedran
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 4.30 Gwasanaeth Carolau, gyda gwin a mins-peis yng Nghastell Glandyfi i ddilyn.
Eglwys Sant Peder, Elerch 2.30 Hwylol Weddi

- 24 **Bethel** 5.30 Nadolig yr Ysgol Sul
Eglwys yr Holl Saint, Llangorwen 11.15 p.m.
Cymun Bendigaidd Noswyl Nadolig
Cwrdd â Siôn Corn (amser i'w gadarnhau) Siop Cynfelyn, Tre'r-ddôl
- 25 **Bethel** 10 Gweinidog. Oedfa Bore Nadolig
Eglwys Dewi Sant 8.30 Cymun Nadolig
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9 Gwasanaeth Cymun
Eglwys Sant Peder, Elerch 8 Cymun Nadolig
- 27 **Bethel** Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Bugail (C)
Rehoboth 10 Ifan Mason Davies
Eglwys Sant Mihangel, Llandre 10 Cymun Bendigaidd Teuluol i bob oedran

IONAWR

- 3 **Bethel**
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 5 Wyn Morris
Eglwys Dewi Sant 11 Gwasanaeth Boreol
Eglwys Sant Peder, Elerch 2.30 Cymun Bendigaidd
- 4 **Sefydliad y Merched Eglwysfach**
Cyfarfod agored gyda Charlie Falzon yn sgwrsio am 'Vodka in My Teapot: Travels in Tajikistan'. Mynediad £2.00 gan gynnwys paned
- 5 **Sefydliad y Merched Taliesin**
Lluniau i'n atgoffa o 2015 a phenderfyniadau
- 10 **Bethel** Uno yn Nasareth
Nasareth 2 Wyn Morris (C)
Rehoboth 10 Wyn Morris (C)
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaidd
- 12 **Cymdeithas y Chwirydd**
Rehoboth 'Atgofion J.R. Jones ar ffilm' (Ann Jenkins)

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Cylch Meithrin Tal-y-bont Cyngerdd Nadolig a Noson Goffi

14/12/15 – 6.30pm

Neuadd Goffa Tal-y-bont
Mynediad £3 oedolion
Plant am ddim

Stondin Gacennau
Cynnyrch Cartref
Creffttau
Raffl
Twba Lwcu
Paned a Mins Peis



Croeso Cynnes i Bawb

Mae Eleri a Gwilym, Meisgyn, yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl ffrindiau yn ardal Papur Pawb. Pob dymuniad da!



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i fy ffrindiau a holl ddarllenwyr *Papur Pawb* oddi wrth Kathleen Richards, Bryn, Tal-y-bont. Nid wyf yn medru danfon cardiau eleni, ond byddaf yn rhoi cyfraniad tuag at elusen.



Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rebecca ac Arthur, gyda Ceri'n dylunio. Golygyddion mis Ionawr fydd Fal a Gwyn (golygydd@papurpawb.com) gyda Ceri'n dylunio.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd **dydd Gwener 1 Ionawr**, a bydd y papur ar werth ar 8 Ionawr.

TRE'R-DDÔL

Mae Papur Pawb wedi penderfynu arbrofi er mwyn casglu newyddion lleol o Dre'r-ddôl a'r cylch.

Mae blwch wedi'i osod yng Nghaffi Cletwr, ynghyd â llyfr lle y gall unrhyw un sy'n dymuno ysgrifennu pwt o newyddion a'i roi yn y blwch.

Bydd golygyddion y mis yn casglu'r newyddion o'r blwch. Felly, wrth i chi ymweld â'r caffi, cofiwch fanteisio ar y cyfle i nodi unrhyw eitem o newyddion a fydd o ddiddordeb i'n darllenwyr.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Scott Mayhew, Brynhyfryd, Tre'r-ddôl, ar ddatlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Nathan Davies, 3 Tanycoed, Tal-y-bont sydd wedi ennill i fynd ymlaen i gystadleuaeth Chef Cenedlaethol Cymru ym mis Chwefror. Nathan yw prif-gogydd Gwesty'r Belle Vue yn Aberystwyth, ac mae e wedi gweithio mewn bwytai yn Llundain a Ffrainc. Cafodd ei hyfforddi yng Ngholeg Ceredigion, Aberteifi.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Illtud a Delyth Griffiths, Glandyfi, sydd newydd ddot yn ddad-cu a mam-gu gyda genedigiaeth mab, Hector, i'w merch Hawen a'i gŵr yn Llundain.

**Cymdeithas Sioe
Tal-y-bont****Gyrfa Chwist Dofednod**

16 Rhagfyr 2015

8pm

Croeso cynnes i bawb

**PLYGAIN MORLAN**

7.30, nos Fercher, 16 Rhagfyr:
Dewch i ddatlu'r Nadolig yn ein Plygain draddodiadol. Croeso cynnes i bawb.

NOSON GWIS MORLAN

7.30, nos Fercher, 13 Ionawr
Cwis blynyddol ble mae timau o gapeli ac eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan. Beth am ffurfio tîm? Ac os nad ydych chi mewn tîm, dewch draw i gefnogi!

Manylion llawn ar wefan Morlan:

www.morlan.org.uk

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

Pobl a Phethe



Pererindod yr Esgob

Yn sgil ei bererindod i holl Blwyfi Esgobaeth Tŷ Ddewi, daeth yr Esgob Wyn i grŵp o eglwysi Llanfihangel Genua'r Glyn ar brynawn dydd Sadwrn gwlyb a gwynnog ym mis Tachwedd.

Mwynheuodd ei ddiwrnod yn ymweld ag eglwysi plwyfol Llandre, Llangorwen a Thal-y-bont. Mae'r rhain ymhlith y 328 o eglwysi y bydd yn ymweld â nhw erbyn mis Medi'r flwyddyn nesaf.

Dechreuodd yn fore yn Eglwys Sant Mihangel, Llandre gan fwynhau astudiaethau beiblaidd dros frechdanau cig moch gyda chriw o ddeuddeg.

Cafodd ei dywys wedyn gan Wynne Melville Jones, yr artist lleol, ar hyd rhywfaint o Lwybr Llên Llanfihangel Genua'r Glyn sy'n dechrau wrth borth yr Eglwys ac yn arwain lan drwy'r goedwig uwchlaw'r eglwys. Cafodd yr Esgob flas ar rai o gerddi beirdd cyfarwydd bro ei gyndeidiau.

Daeth y tair cynulleidfa ynghyd yn Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont ar gyfer gwasanaeth canol dydd. Gofynnodd yr Esgob i'r gynulleidfa ystyried natur fyw a pherthnasol eu ffydd yn y byd cyfnewidiol sydd ohoni. Gallai pob aelod feddwl am eu bywydau eu hunain fel dameg o fywyd yr Iesu.

Yn dilyn cinio gyda'r cynulleidfaoedd, ymwelodd yr Esgob â fferm Penywern. Yno, cwrddodd â dau gwpwl ifanc a ddaeth i nabod ei gilydd, ac a ddaeth i greu yn sgil cwrs Darganfod Cristnogaeth.

Daeth diwrnod yr Esgob i ben gyda gwasanaeth Hwyrrol Weddi syml yn Eglwys yr Holl Saint yn Llangorwen.

Dyna 189 o eglwysi wedi'u gwneud – dim ond 139 i fynd!

Bwyd Da...
Cwmni Da...

**Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda
Mwynhewch yr Ŵyl!**

Mi fyddwn ar gau rhwng 24 - 29 Rhagfyr

01970 832 555 croeso@yblac.co.uk

Gwellhad buan

Dymuniadau gorau i John Griffiths, Fferm Ffwrnais sydd wedi derbyn clun newydd yn ddiweddar.

Gan ddymuno gwellhad buan i Mai Leeding, Glannant, Taliesin, sydd yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd ar ôl torri ei hysgwydd a'i chlun yn ddiweddar. Hen dro Mai - brysis wella plis!

Gwellhad buan yn ogystal i Gwen Hughes, Coetmor, Tal-y-bont sydd yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd.

Croeso adref i ddau a dreuliodd amser yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar, sef Bill Gardener, Pandi, Tal-y-bont ac Ynyr Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont.

Gwellhad buan hefyd i Hywel Williams, Cynnull Mawr sydd wedi bod yn yr ysbyty.

Dymunwn wellhad buan i Jack Jeeves, Llys-y-coed, Tre Taliesin, sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd.

Cydymdeimlo

Trist yw cofnodi marwolaeth Peter Wathern, Erwau Glas, Tal-y-bont, gynt, yn ei gartref yn Stonehouse, sir Gaerloyw. Roedd wedi symud yno yn ystod y flwyddyn i fod yn agosach at ei deulu. Cyn ymddeol, athro mewn Gwyddor Amgylcheddol yn y coleg yn Aberystwyth oedd Peter. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w wraig Julie, eu plant Andrea a Matthew, a'u hwyryon, William ac Alistair, a'u hwyres, Alice.

Â thristwch hefyd y cofnodwn farwolaeth Menna Roberts, Esgair Wen, Penlon, Tal-y-bont. Gweler teyrnged iddi ar dudalen 10.

**Clwb Ffermwyr Ifanc
Tal-y-bont a'r Cylch****Camp Gwenno**

Llongyfarchiadau mawr iawn i Gwenno Evans, Tanllan, Llangynfelyn ar ennill bowlen wydr yn y Ffair Aeaf. Hi oedd y cystadleuydd newydd i gael y safle uchaf gyda'i phâr o ŵyn tew.

Canu Carolau

Bydd aelodau'r clwb yn dod o amgylch yr ardal i ganu carolau eleni eto fel arfer ar nos Fawrth 15fed o Ragfyr. Gwrandewch amdanom.

MWY O LIW

Fe fydd y craffaf o ddarllenwyr Papur Pawb wedi sylwi bod mwy o liw yn y rhifyn hwn o'r papur. O hyn allan bydd o leiaf wyth tudalen lliw yn lle pedair ym mhob rhifyn.

Ffair y Neuadd



Mr Peter Manley, enillydd raffl y Cadeirydd, yn derbyn ei wobwr gan Carrin M.S. Davies, Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd

Yn ôl yr arfer ar brynhawn dydd Sadwrn olaf mis Tachwedd, roedd Neuadd Goffa Tal-y-bont yn llawn bwrlwm, stondinau a llond y lle o raffls ar gyfer Ffair y Neuadd.

Codwyd dros £1,200 – swm anrhydeddus, sy'n galluogi'r Pwyllgor i gynnal a chadw'r Neuadd, ac i gadw prisiau llogi'n isel ar gyfer mudiadau lleol.

Diolch yn fawr iawn i bawb a helpodd gyda'r trefniadau ac a gyfrannodd at y cyfanswm.

Sefydliad y Merched Ceredigion



Yn rali'r Gaeaf Sefydliad y Merched Ceredigion yn Llanrhystud ar Dachwedd y 14eg, llwyddodd Sefydliad y Merched Taliesin i ennill cwpan arian am y Sefydliad gyda'r pwyntiau uchaf yn y ddwy rali - Gwanwyn a'r Gaeaf gyda'i gilydd. Enillodd Beti Wyn darian am y marciau uchaf yn yr adran flodau. Gweler tair aelod yn cynrychioli'r gangen yn y llun: Liz Roberts, Beti Wyn a Sylvia Cartwright.

Ysgol Llangynfelyn



Sesiwn Cyfansoddi



Clwb Celf



Pêl-droed 'Live Your Goals'



Plant Mewn Angen



Sioe Nadolig

Ysgol Llangynfelyn

Gala Nofio

Aeth 8 o blant Dosbarth Miss Hughes i Gala Nofio'r Urdd i Ysgolion Cynradd Ceredigion. Nofiodd y plant i gyd yn dda iawn gydag amryw ohonynt yn dod yn yr ugain cyntaf.

Diwrnod Rhyngwladol y Toiled

Roedd yn Ddiwrnod Rhyngwladol y Toiled ar y 19eg o Dachwedd a daeth mam Katy sef Louise Halestrap i'r ysgol i siarad gyda'r plant am ddiffyg toiledau a dŵr glan. Mae 2.3 biliwn o bobl yn y byd heb doiled. Dysgodd y plant am bwysigrwydd hylendid i atal afiechyd.

Plant Mewn Angen

Daeth y plant a'r staff i'r ysgol wedi'u gwisgo yn eu pyjamas a'u 'onesies'. Bu Miss Cerys yn brysur iawn yn gwneud cacennau a chodwyd arian ar gyfer yr elusen. Cafodd y plant lleiaf eu hwynebau wedi'u paentio fel Pudsey cyn mynd i Siop Cynfelyn am sesiwn 'Amser Stori' gyda Mrs Falyri Jenkins.

Pêl-droed 'Live Your Goals'

Aeth merched Cyfnod Allweddol 2 i'r Brifysgol yn Aberystwyth i gymryd rhan mewn sesiwn pêl-droed. Noddwyd y bore gan FIFA ac Undeb Pêl-droed Cymru. Buont yn chwarae gemau sgiliau pêl-droed gyda merched eraill o Ysgolion Cynradd Ardal Aberystwyth. Cafodd y merched grys-t Adidas i gadw.

Clwb Celf

Mae ein Clwb Celf llwyddiannus ar ôl ysgol wedi bod yn brysur iawn yn gweithio ar gollage mawr lliwgar newydd yn dangos logo'r ysgol. Mae'r collage wedi'i arddangos yn yr ysgol i bawb ei weld.

Sesiwn Cyfansoddi

Daeth disgyblion Blynyddoedd 6 Ysgolion Tal-y-bont a Chraig yr Wylfa i'r ysgol i gymryd rhan gyda'n disgyblion Blwyddyn 6 mewn sesiwn cyfansoddi a pherfformio gyda Gwilym Morus. Mwynhaodd y plant gyfansoddi cerdd ar y thema 'Afon Cletwr' cyn perfformio'r gerdd. Recordiodd Gwilym y canu a gobeithiwn glywed y gân ar CD cyn bo hir.

Sioe Nadolig

Cynhaliwyd ein Sioe Nadolig sef Pantomeim 'Robin Hood' yn Neuadd Llanfach ar yr 2il o Ragfyr. Perfformiodd y plant yn arbennig o dda yn canu, actio ac yn dawnsio i neuadd llawn dop o gyn-ddisgyblion, ffrindiau a rhieni. Roedd yn hyfryd iawn gweld pob un o blant yr ysgol ar y llwyfan yn actio'n hyderus.

Diolchwn i'r rhieni am wneud y gwisgoedd gwych ac i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am helpu i addurno Llanfach ac am y lluniaeth nôl yn yr ysgol. Diolchwn hefyd i Bwyllgor Llanfach am eu caredigrwydd a'u cydweithrediad parod ac i Gwmni Pantomeim Machynlleth am gael benthyg y coed ffug.

Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi
MYNACH
Garden Maintenance

Torri Porfa, Sietynau, Tirtunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffôn Meirion:
07792457816 / 01974 261758

e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Merched y Wawr, Tal-y-bont

Cawsom gwmmi ein gwestai Ruth Jên yn ein cyfarfod fis Tachwedd.

Yn ei ffordd gartrefol, ddiymhongar eglurodd y broses o greu printiadau'r fenyw fach Gymreig. Rhoddodd arddangosfa o'r broses dechnegol mae'n ei ddefnyddio ac eglurodd fel mae'n ymchwilio i hen arferion cymdeithasol, i wahanol wisgoedd ers talwm ac i eirfa gwahanol ardaloedd. Mae'r cyfan yn portreadu'r gwragedd bach yn lliwgar ac yn llawn hiwmor. Dim rhyfedd eu bod mor llwyddiannus! Diolchwyd iddi am noson hynod ddifyr.

Roedd y noson yng ngofal Diana Jones ac Eryl Evans.

Cynrychiolwyd ein cangen yn y Cwis Cenedlaethol gan Carys Briddon, Ann Humphreys, Diana Jones ac Eryl Evans. Er na ddaethont i'r brig roedd eu marciau yn rhai parchus.

Cymdeithas y Chwirydd

Croesawyd Hywel Wyn Edwards, yr Yddgrug, i'r cyfarfod yn festri capel Rehoboth, Taliesin, ar brynghawn dydd Mawrth, 10 Tachwedd.

Cafodd ei eni yn Nhaliesin, a chafwyd prynghawn difyr wrth wrando arno yn sôn am ei ddyddiau cynnar yn yr ardal. Ar ôl treulio blynyddoedd fel athro, bu'n gweithio fel Trefnydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Diddorol oedd clywed am rai o'r digwyddiadau difyr neu'r troeon trwstan a ddigwyddai yn y cefndir na ddaetha'r cyhoedd i wybod amdanynt.

Mwynhawyd te a bisgedi wedi eu paratoi gan Non Griffiths ac Eirlys Jones ar y diwedd.

Gwasanaeth Sul y Cofio

Cynhaliwyd gwasanaeth coffa a diolchgarwch ar ddydd Sul, 8 Tachwedd yn y Neuadd Goffa. Roedd y gwasanaeth yn cofio'n arbennig y rhai hynny o Dal-y-bont a roddodd eu bywydau dros ein rhyddid yn ystod y ddau Ryfel Byd.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch Peter Jones, ac fe gyhwynnodd am 10.45 gyda'r emyn agoriadol yn cael ei chwarae ar y piano gan Mrs Susan Jenkins.

Darllenwyd efengyl Sant Mathew o'r Beibl yn y Gymraeg gan y Cynghorydd Nest Jenkins, a dilynwyd hyn gydag emyn yn y Gymraeg a'r Weithred o Goffâu.

Darllenodd Mr Ieuan Morgan y Rhestr er Anrhydedd ac i ddilyn cafwyd cân ar y trwmped. Aeth Mr Morgan ymlaen gyda'r Anogaeth ac fe nodwyd y ddau funud o dawelwch am 11.00. Dilynwyd hyn gan y Beddargraff Kohima ac yna chwaraewyd y Reveille.

Gosodwyd y ddwy dorch, a ddarparwyd gan y Cyngor Cymuned, gan Mr Bob Southgate a Mr John Morgan.

Yna, fe arweiniodd y Parchedig Peter Jones y Weithred Ymrwymo a dilynwyd hyn gyda darlenniad o'r Beibl yn y Saesneg gan Janet Morgan. Myfyriwyd gan y Parch Peter Jones a dilynwyd hyn gan weddiâu a'r fendith derfynol.

Yn ystod yr emyn olaf, cynhaliwyd y casgliad ac fe godwyd £98.36 tuag at Apêl Pab'r Llang Brydeinig Frenhinol.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cymorthdaliadau 2015/16

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol. Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Lowri Jones

Y Clerc, Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
d/o Otters Holt, Blaeneinion, Cwm Einion, Ffwrnais,
Machynlleth, Ceredigion, SY20 8TD
cyngorcarn@gmail.com

Dyddiad Cau: **Dydd Iau 9 Ionawr 2016**

Teyrnged

Er cof am Menna Roberts, Esgair Wen, Tal-y-bont

Chwith iawn fydd peidio â gweld wyneb siriol Menna Roberts, Esgair Wen, Tal-y-bont, ar fysys y fro o hyn allan. Bu farw Menna'n frawychus o ddisymwth ganol mis Tachwedd eleni. Anodd credu iddi ein gadael mor sydyn oherwydd, er bod Menna'n nes at ei 90 na'i 80 oed, roedd hi'n dal i symud fel gwiwer ar hyd y lle gan lamu'n sionc ddi-ffael i fyny'r grisiau i fwynhau'r golygfeydd o lawr uchaf yr X28.

Ganed Menna ger Dolgellau i deulu amaethyddol ond buan y symudon nhw i ardal y Bermo lle mae gan bobl atgofion cynnes amdani yn sgil ei gwasanaeth hirfaith yn y fferyllfa leol. Wrth iddynt fynd yn hŷn, penderfynodd ei rhieni symud i Dre Taliesin i fyw a buont yn preswyllo yno yng Nghartrefle nes iddynt farw gyda Menna'n gofalu amdanynt yn eu henaint.

Roedd harddwch ei mamwlad yn rhyfeddod diddiwedd i Menna a manteisiodd i'r eithaf ar y gwasanaeth bysys di-dâl i'r henoed yng Nghymru gan deithio'n ddyddiol bron tua'r gogledd, i'w hannwyl Bermo, Porthmadog, Caernarfon a Bangor. Roedd y golygfeydd ym mhob tymor yn ei swyno'n lân ac ni flinai fyth ar y teithiau hyn. O gyrraedd nod y daith (Y Bermo gan amlaf!) fe gerddai ymhell wedyn nes dal y bws adre ar ddiwedd y dydd.

Yn ddiweddar roedd hi wedi darganfod y Sowth, chwedl hithau, gan deithio'n fwyfwy aml i gyfeiriad Llambled a Chaerfyrddin gan ymhyfrydu yn y cwbl a welai ar y daith.

Pleser bob amser oedd canfod bod Menna'n cyd-deithio ar y bws hefo chi. Byddai ei sgwrs yn ddiddan a meddai ar hiwmor mawr a dawn dynwared annisgwyl. Ni ddymunai Menna roi pwysau ar neb ac ar ôl rhyw bum munud o sgwrs fach byddai'n cyhoeddi nad oedd am darfu ymhellach arnoch chi – nid ei bod hi'n tarfu mewn unrhyw ffordd. Roedd ei straeon a'i sylwadau bob amser yn werth gwrandao arnynt.

Yn sicr mae'r bwlch ar ei hôl hi'n sylweddol ond mae rhywun yn diolch am yr hwyl, difyrwrch ac ysbrydoliaeth a gafwyd yn ei chwmmi ar aml i daith fws ar hyd y blynyddoedd.

Martin Davis

Cynhaeaf y Cledd



Geraint Evans, Tal-y-bont (Dr Harris) a Siôn Pennant, Bont-goch (Dr D.J. Davies) yn actio yn y cyflwyniad dramatig Cynhaeaf y Cledd a berfformiwyd gan Gwmni'r Morlan ar 8 a 9 Tachwedd. Geraint oedd cynhyrhydd y cyflwyniad a lluniwyd y sgript gan Gwyn Jenkins. Hefyd yn y llun mae Dana Edwards a Deian Creunant.

Pobl yr Ymylon



Profiad hynod i gynulleidfa barchus Neuadd Goffa Tal-y-bont oedd mynychu perfformiad Theatr Gydweithredol Troedryhiw o ddrama Idwal Jones, Llanrwst, 'Pobl yr Ymylon'.

Dyma ddrama a gyfansoddwyd yn 1927 ond a leolwyd yn y Gymraeg wledig, anghydfurfiol, ychydig flynyddoedd yn gynt, pan oedd y ffeiriau yn eu bri, cardotwyr a sipsiwn yn crwydro'r wlad, ar parch dall at weinidogion heb bylu. Cafwyd ymgais glodwiw i greu awyrgylch a fyddai'n atgoffa cynulleidfa 2015 o natur cefn gwlad Cymru yn ystod y cyfnod dan sylw. Roedd y defnydd o dywyllwch yn hynod symbolaidd, ar ddyfaïs o ostwng a chodi'r golau rhwng pob set yn hynod effeithiol.

Ceiswyd denu cynulleidfa i'r Neuadd trwy gyfeirio at y ddrama fel comedi, a chydag Ifan Gruffydd yn serenennu fel Malachi Jones pwy all wadu nad oedd hynny'n briodol. Ond nid chwerthin llond bol a gafwyd gan amlaf ond gwenu a nodio wrth i ddatganiadau Malachi a'i amseru campus hoelio sylw'r dorf.

Fem hatgoffwyd ar y diwedd i Eirwyn Pontshân berfformio rhan Malachi Jones yn ei ddyddiau cynnar ac iddo ddefnyddio rhai o ddywediadau Idwal Jones wrth ddiddori cynulleidfaoedd. Hawdd credu hynny. Byddai pathos y darn yn gweddu i'r dim i ddoniau Eirwyn fel ag y mae i ddoniau Ifan Tregaron.

Braf gweld y cwmmi yn atgyfodi un o glasuron y Gymraeg, a diddorol oedd clywed afficionados y ddrama wrth adael yn cymharu'r ddrama'n ffafrilol â gwaith Beckett neu Strindberg. Newidiwch y trempyn ar sipsi ar hwren am ddiodeffwr HIV, ffoadur o Syria, neu un o deithwyr ysgymun heddiw, ac fe fedwrch uniaethu â dawn y dramodydd wrth iddo saernio deialog a golygfa o gwmpas thema oesol.

Mae'n bechod i'r perfformiad gyd-daro ag ymddangosiad Bara Caws yn Theatr y Werin, ond profodd Tal-y-bont, ar waethaf hynny, fod cynulleidfa barod yma ar gyfer drama'u o safon a Neuadd hwylus a hyblyg oedd yn gwbl addas ar gyfer y perfformiad. Melys moes mwyl.

Phil Davies

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur
- ... a rhagor

Nodwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors Volkswagen



papurpawb.cymru



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfodydd mis Tachwedd.

1 Biniâu Halen Glanrafon

Adroddodd y Cyngorwyr bod bin halen Glanrafon bellach yn ei le.

2 Cynllun Brys Llifogydd Tal-y-bont

Gofynnodd Arthur Dafis, ar ran grŵp Llifogwyr Tal-y-bont, i'r Cyngor ymgysylltu â chynnwys fersiwn diweddaraf Cynllun Brys Llifogydd Tal-y-bont a'i dderbyn e fel cynllun cymunedol. Cymeradwydd y Cyngor y grŵp am ei waith, gan ganmol safon y cynllun diwygiedig. Yr oedd y Cyngor yn hapus i dderbyn y cynllun.

3 Ffens Maes-y-Deri

Adroddodd y Clerc iddi siarad gydag adran Priffyrdd, Eiddo, a Gwaith Cyngor Sir Ceredigion a gyda Tai Ceredigion ynglŷn â'r ffens oedd wedi'i fflatio. Nododd y byddai Tai Ceredigion yn mynd i'r safle drannoeth i'w asesu a'i thrwsio.

4 Meddygfa'r Neuadd Goffa


Adroddodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn neges gan Jacqueline Jones-Brown, Rheolwraig Meddygfa Borth. Nododd Jacqueline bod y Bwrdd Iechyd wedi dod i'r penderfyniad i gau'r feddygfa'n swyddogol gan nad oedd y Neuadd yn addas ar bwrpas fel meddygfa. Nododd y Cyngor ei siom, yn arbennig ar ôl danfon ymlaen deiseb y gymuned yn gwrthwynebu'r cau.

5 Gohebiaeth: Llywodraeth Cymru – Cyngor Iechyd Cymuned yn Chwilio am aelodau

Derbyniwyd hysbys fod y Cyngor Iechyd Cymuned yn chwilio am wirfoddolwyr. Mae aelodau Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) yn wirfoddolwyr lleol sy'n gweithredu fel llydga a chlust cleifion a'r cyhoedd, gan wrando ar eu pryderon a gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd i wella ansawdd gofal i gleifion. Nodir mai gofal i gleifion sydd wrth galon y GIG, a'r CICau ydy llais annibynnol cleifion a'r cyhoedd yng Nghymru. Gofynnir i aelodau neilltuo rhwng tri a phum diwrnod y mis ac fe gaiff unrhyw gostau 'allan o boced' eu had-dalu. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda Bwrdd CICau ar: 029 2023 5558 neu member.recruitment@waleschc.org.uk neu ewch i'r wefan <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/page/71611>

6 Gohebiaeth: Cyngor Sir Ceredigion - Sedd Wag ar Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Rhoddir rhybudd fod yna sedd wag achlysurol yn y swydd o Gyngorwyr ar Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr. Medr unrhyw ddeg etholwr yn yr ardal etholiadol Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr ddyddio etholiad i lenwi'r sedd wag. Os dymunwch enwebu eich hun am y sedd wag rhaid rhoi gwybod i Bronwen Morgan drwy hysbysiad ysgrifenedig wedi ei gyfeirio a'i drosglwyddo iddi yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA ar, neu cyn 18fed Rhagfyr 2015.



Codi cwestiynau am fesurau arafu'r traffig



digon o drydan i oleuo'r ddau arwydd 20 milltir yr awr am gwta awr y dydd – hanner awr cyn i'r ysgol agor yn y bore, a hanner awr pan fydd y diwrnod ysgol yn dod i ben.

Wrth gwrs mae angen arafu traffig yn ein pentrefi, ac mae buddsoddiad o'r fath i'w groesawu'n fawr. Ond, gyda'r holl waith sydd wedi ei wneud yn Nhal-y-bont, hawdd fyddai credu nad yw gwir anghenion y pentref wedi eu hystyried.

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Ar gyfnod yr erchyllerau ym Mharis ac mewn llefydd eraill ar draws y byd, braf iawn oedd medru mynychu digwyddiad yng nhapel enwog Llwynrhydowen, oedd yn dod â phobl ynghyd o wahanol ffydd a'r digrefydd fel ei gilydd.

Cynhaliwyd gwasanaeth llwyddiannus iawn yn fel rhan o wythnos rhyng-ffydd Cymru, gyda chynrychiolwyr Mwslemiaid, Undodwyr, Baha'i, yr Eglwys yng Nghymru ac eraill yn bresennol.

Ar yr adeg hon, mae hi mor bwysig i gofio fod yr hyn sy'n ein uno fel pobl gymaint yn bwysicach na'r hyn sy'n ein gwahanu. Llonyfarchiadau mawr i drefnwyr y digwyddiad.

Llonyfarchiadau hefyd i gangen leol y Gymdeithas Gyfrifiaduron Brydeinig, am gynnal sesiwn Hawl i Holi lwyddiannus yn Aberystwyth. Roedd y cwestiynau yn heriol, ond mae'n faes hollbwysig i ddyfodol diwylliannol ac economaidd ein hardal. Bydd darllenwyr rheolaidd y golofn hon yn gwybod fod cyswllt band-llydan yn bwnc pwysig iawn i mi. Hefyd felly gwasanaeth ffôn symudol. Amrywiol iawn yw'r sefyllfa o hyd. Mae rhai manau, gan gynnwys rhannau o Lamed, Aberteifi ac Aberystwyth, nawr yn medru derbyn gwasanaeth 4G trwy rai rhwydweithi. Deallaf hefyd fod gwelliannau wedi bod yn ardal Llangerannog ar ôl problemau dros y misoedd diwethaf y bwm i'n eu codi gydag Ofcom. Ond mewn ardaloedd eraill mae'r gwasanaeth wedi dirywio, neu wedi dod yn fwy anghyson yn ddiweddar. Ac hefyd wrth gwrs mae ardaloedd – fel Pontrhydygroes a sawl un arall – lle mae diffyg signal o gwbl yn dal i fod yn broblem ddifrifol. Mae cynlluniau ar y gweill i daclo hyn mewn rhai ardaloedd gydag arian cyhoeddus, a byddaf yn parhau i bwysio ar y cwmnïau i wella'r ddarpariaeth.

Roedd y mis aeth heibio hefyd wedi dod a phrofiad newydd sbon i'm rhan, sef dod yn lysgennad cenedlaethol dros bysgodyn! Cynllun yw hwn gan sawl corff cadwriaethol i godi ymwybyddiaeth o'r angen i warchod rhai o'r pysgod sy'n bwysig i Gymru. Fel rhan o'r prosiect, daeth tri o Aelodau Cynulliad yn genhadon dros yr eog, y brithyll, a'm mhysgodyn innau sefyw. Fel un a fagwyd yn nyffryn Teifi, rwy'n gwybod faint mor eiconig yw'r pysgodyn hwn. Rwy'n gwybod nad yw mor gyffredin ag y bu, ac mae angen cymryd mantais o'r wyddoniaeth ddiweddar er mwyn sicrhau ei fod yn ffynnu.



Ysgol Tal-y-bont

Goleuo Coeden y Pentref

Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint o bobl y gymuned yn dod i weld plant yr ysgol yn perfformio yn y Neuadd Goffa eleni eto. Hoffwn ddiolch yn fawr am y gwahoddiad a diolch yn fawr i'r staff am baratoir eitemau, i bawb sydd wedi helpu gyda'r hyfforddi ac yn enwedig i'r plant am eu cyfraniadau amrywiol. Uchafbwynt y noson oedd gweld Eli ac Angharad, Llysgenhadon yr Ysgol, yn cynnau'r golau. Nadolig Llawen i bawb.

Her ddarlenn Llyfrgell Ceredigion

Llongyfarchiadau mawr i Miri am gael tystysgrif am gwblhau her ddarlenn yr haf a drefnwyd gan Lyfrgell Ceredigion. Ardderchog.

Siaradwyr Cymraeg

Mae'r syniad o gael siaradwyr Cymraeg yr wythnos yn mynd o nerth i nerth. Yn ystod mis Tachwedd rhaid llongyfarch Cai, Cerys, Zak, Maya, Gwenllian, Ellie, Clarice, Steffan, Ryan, Iestyn, Ioan a Tyler am ymdrechu i siarad Cymraeg yn yr ysgol. Diolch yn fawr i Siop SPAR y pentref am gydweithio gyda ni ar y syniad yma hefyd.

Gweithgareddau LLESOL

Gweithgaredd mis Tachwedd oedd peintio ewinedd yn neuadd yr ysgol. Diolch yn fawr i Karen am ddod i helpu. Byddwn yn cael hoe yn ystod mis Rhagfyr ac yn ail ddechrau gyda BINGO ar 21 Ionawr yn y Neuadd Goffa. Diolch yn fawr iawn i Anwen Curran, Cydlynedd LLESOL am drefnu'r gweithgareddau.

Diwrnod Plant Mewn Angen

Eleni roedd y Cyngor Ysgol wedi penderfynu cael diwrnod i ddathlu eu harcharwyr ar ddiwrnod plant mewn angen. Cafwyd diwrnod hwyliog iawn a chodwyd bron i £60 tuag at yr elusen.

Bocsys esgidiau

Roedd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi penderfynu y byddai'n beth da i'r ysgol algydio yn y weithgaredd yma eleni ac fe gafwyd ymateb da iawn wrth i ni gasglu dros 20 o focsys ar gyfer Operation Christmas Child dan ofal Samaritan's Purse. Da iawn bawb!

Wythnos Gwrth-fwlio

Yn ystod mis Tachwedd roedd hi'n wythnos gwrth-fwlio cenedlaethol ac fe fanteisiodd yr ysgol ar y cyfle i gynnal trafodaethau bywiog am y gwahaniaeth rhwng bod yn gas a bwlio.

Chwaraeon Hoci

Mae'r tîm hoci'n cael llwyddiant yng nghynghrair nos Wener yr ysgolion lleol eleni eto. Rydym yn ddiolchgar iawn i Bernard Morris am gynnal yr hyfforddiant bob nos Fercher ac i John Jenkins am gynorthwyo gyda rheoli'r tîm yn ystod y gemau hefyd. Mae'n braf gweld nifer fawr o blant yn mynychu'r hyfforddiant yn wythnosol.

Rygbi

Ar ddiwrnod llwydaidd iawn ynghanol mis Tachwedd aeth tîm rygbi'r ysgol i chwarae gêm gyfeillgar yn erbyn Ysgol Gymraeg Aberystwyth ar Goedlan y Parc. Roedd hi'n frwydr galed ynghanol y glaw a'r mwd ac roedd y canlyniad yn y fantol tan y funud ddiwethaf gyda bois y wlad yn arddangos doniau amddiffyn ardderchog i wrthsefyll ymosodiadau nerthol bois y dref. Da iawn chi fechgyn, canlyniad rhagorol.

Gala Nofio'r Urdd

Bu deg o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yng Ngala nofio'r Urdd yng Nghanolfan Plasrugg eleni. Roedd hon yn gystadleuaeth ranbarthol gyda phob ysgol yng Ngheredigion yn cystadlu ac roedd y safon yn eithriadol o uchel. Llongyfarchiadau mawr i bawb am gymryd rhan a gobeithio fod pawb wedi mwynhau'r profiad.

Staff Newydd

Hoffwn estyn croeso cynnes i Kayleigh Swanson sydd wedi ymuno gyda ni. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn gyda ni yma yn Ysgol Tal-y-bont.

Cyngerdd Nadolig

Bydd Cyngerdd Nadolig yr ysgol yn cael ei chynnal yng Nghapel Bethel ar nos Fercher, 9 Rhagfyr am 6 o'r gloch. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi trefnu lluniaueth ysgafn a stondinau yn y Neuadd Goffa ar ôl y gyngerdd. Croeso i bawb.

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talliesin, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes
Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew
01970 832129
07761 917235

STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi
Bocsys a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk
Ffôn: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk
HEOL Y DOLL, MACHYNLETH, SY20 8BQ

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?
Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys:
cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy.
Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:
Dysgu Bro CEREDIGION Community Learning
01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk

Ysgol Tal-y-bont



Goleuo Coeden y Pentref



Her ddarllen Llyfrgell Ceredigion



Goleuo Coeden y Pentref



Diwrnod Plant Mewn Angen



Gweithgareddau LLESOL



Rygi

Llwyddiant yn y Sioe Aeaf



Ffair Aeaf Llanelwedd: Pencampwyr Defaid Tir Isel – pâr o Wŷn Dorset (Moel) gyda Iolo a Rowland Davies, o Griffiths a Davies Neuadd Dolclettwr, Taliesin



Yn y cystadlaethau gosod blodau, crefftau a choginio yn y Sioe Aeaf yn Llanelwedd, daeth llwyddiant i waith Beti Wyn Davies Taliesin.

Cafodd dair gwobr gyntaf am: gorchudd potel o waith ffelt, pleth sawrus Gymreig a phlethdorch o flodau i groesawu'r Nadolig.

Cafodd ail wobwr am ddarn o emwaith wedi'i greu o flodau, gosodiad o flodau ar y thema Harddwch y Gwrych, a'r ail safle hefyd am anheg o dri chyffraith.

Trydedd wobwr a gafwyd am gacen Nadolig wedi'i haddurno gyda ffrwythau glacé, ac addurn ar y wal ar y thema 'Gwin ac Uchelwydd.'

Cafodd gosodiad modern yn yr adran flodau ar y thema 'Cerflun' ganmoliaeth uchel gan y beirniad.

Dim ond ers dwy flynedd mae Beti wedi dechrau ymddiddori mewn gosod blodau, felly llongyfarchiadau ar Sioe mor llwyddiannus.

Ysgol Eco



Prosiect Cymerau

Dros y misoedd diwethaf, mae Ysgol Tal-y-bont wedi bod yn rhan o brosiect cyffrous iawn. Enw'r prosiect yw 'Cymerau' ac mae'n ganolbwynt y gwaith ar yr ardal o gwmpas Borth a Thal-y-bont oherwydd effaith y llifogydd a fu yma nôl yn 2013.

Mae Cymerau'n rhan o brosiect ehangach sy'n ymestyn dros dair blynedd o'r enw Hydrocitizenship (2014-2017) gyda'r nod o gyfuno ymchwil academaidd, cyfranogiad cymunedol a gweithgareddau creadigol.

Mae llawer o weithgareddau wedi'u cynnal yn barod ac mae Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Tal-y-bont wedi cael budd mawr o'r prosiect. Wrth fod yn rhan o'r prosiect mae plant yr ysgol wedi cael cyfle i adlewyrchu ar y syniad o ddinasyddiaeth mewn perthynas â dŵr a chodi ymwybyddiaeth o arwyddocâd dŵr i ni fel pobol yn y gymdeithas. Mae pwyslais wedi bod hefyd ar sut allwn ni fod yn gymdeithas mwy cynaliadwy.

Fel rhan o'r prosiect, mae'r plant eisoes wedi cael cyfle i ddyddu am yr amgylchedd leol a chodi ymwybyddiaeth am faterion amgylcheddol gyda'r Athro Mark Macklin o Brifysgol Aberystwyth. Yn dilyn hynny, bu'r plant yn crwydro'r ardal yn creu gwaith celf gan ganolbwyntio ar bwysigrwydd dŵr yn ein cymdeithas gyda'r artist Judy Macklin a chafwyd gweithdy gwych gyda'r bardd Eurig Salisbury hefyd. Bwriad y gweithdy yma oedd ysbrydoli'r plant i fynegi siwrne'r afon Ceulan mewn geiriau ac mae'r gerdd a grewyd yn ymddangos ar wal yn neuadd yr ysgol.



Afon Ceulan

Afon fach yn disgleirio o arian,
Llwynog yn cuddio yn y cerrig yn sbecian,
Gorlifo'n gyflym mas o gwpan,
Sioncyn y gwair yn neidio a sboncian
Fel Tomos yn y bath yn sbashian,
Dŵr dros y cerrig yn hedfan
Coesau plant yn socian,
Pysgod yn defnyddio lili fel tegan
Yn codi lan ac yna o dan.
Nant yn troelli yn canu cân,
Mae'r sŵn yn dod yn uwch ac yn sgrechian
Yn y gaeaf mae'r sŵn fel taran,
Gwynt a storm a dŵr yn tampan,
Dŵr y môr yn adlewyrchu'r haul fel tân,
Yn llifo yn araf fel crwban,
Y holl ffordd allan i'r ...

MŌR



Yn fwy diweddar mae'r gwaith wedi parhau gyda chwmni pypedau Vagabondi'n cynnal gweithdai difyr a chyffrous iawn yn yr ysgol. Mae Vagabondi'n theatr bypedau broffesiynol sy'n darparu adloniant a gweithdai addysg yng Nghymru a Lloegr, ac roeddem wedi bod yn ffodus iawn o'u cael yma yn Nhal-y-bont.

Mae'r plant wedi cael cyfleoedd gwerthfawr i greu pypedau ac i animeiddio er mwyn creu ffilm fer ar gyfer eu dangos yn ehangach. Penllanw'r weithgaredd yma oedd cynnal 'première' mawreddog yn y Neuadd Goffa yn ystod mis Tachwedd lle daeth llawer o bobl o'r ardal i wyllo ffilm Ysgol Tal-y-bont ac i weld elfennau o'r prosiect. Roeddem yn falch iawn o waith y plant ac mae'n amlwg eu bod nhw wedi mwynhau'r prosiect yn fawr iawn.

Ers hynny, mae plant hynaf ysgolion Tal-y-bont, Craig yr Wylfa a Llangynfelyn wedi bod yn rhan o weithdy cyfansoddi cân gyda'r cerddor Gwilym Morus. Fe weithiodd y plant yn galed iawn yn ystod y bore i gyfansoddi, ymarfer a recordio synau a geiriau a chreu cân gofiadwy iawn am rai nodweddion lleol fel yr Afon Cletwr a chwedl llyffant mwyaf doeth y byd sy'n byw ynghanol Cors Fochno. Roedd yn weithdy gwahanol iawn i'r plant ac fe wnaethon nhw fwynhau bod yn sêr pop am fore. Hoffwn ddiolch yn fawr i Gwilym am ei waith ac edrychwn ymlaen at glywed y gân gyfan yn fuan iawn. Dyma eiriau cân y plant –

Afon Cletwr sydd yn llifo,
Llyffant hynaf sydd yn bryso,
Ond yr afon sy'n cael llwyddiant
Wrthi'n rhedeg lawr y pant.
Tylluan wen sydd newydd ddeffro,
Wedi trio dal ei chinio,
Aderyn chwim yn plymio lawr,
I ddal ei ginio'r llyffant mawr.

Y cam nesaf fydd creu fideo i gyd-fynd gyda'r geiriau yn y flwyddyn newydd.

Rydym yn mawr obeithio fod y gweithgareddau hyn wedi creu argraff ar y plant ac y byddant yn cofio'r negeseuon pwysig i'r dyfodol.



Oesol yw'r afon

Cafwyd noson ychydig yn wahanol dan nawdd Clwb Nos Wener ym mis Tachwedd pan ddaeth Gwilym Morus Baird a'i chwaer Siwan i ddi-ddanu'r dorffwrda'u lleisiau swynol.

Yn ogystal ag alawon a gyfansoddwyd gan Gwilym ar gyfer cerddi newydd gan benillwyr y fro gan gynnwys Bleddyn Huws, Carys Briddon, David Bwlchdyddwyallt a Siân Saunders, bu Gwilym a Siwan yn cyflwyno sawl hen ffefryn o'r stabl canu gwerin.

Yn her i'r gynulleidfa yn ystod yr egwyl, gofynnwyd am fersiynau newydd o benillion Ar Lan y Môr. Bu'r ymateb yn frwd a chafwyd sawl cynnig gwreiddiol a difyr – fel geiriau Phil Davies am yr 'wylan farus' a'r hyn a ddymunai ei wneud iddi â'i 'wn a'i getris'.

Braf iawn hefyd oedd gweld wynebau newydd ymhlith y criw a ddaeth ynghyd a phawb yn sôn am faint roedden nhw wedi mwynhau'r noson.

Noson am ddim i Glwb Nos Wener oedd hon, diolch i gynllun Cymerau ond gan mai dŵr yw themat'r cynllun hwnnw, penderfynwyd gwahodd cyfraniadau i'r elusen Cymorth Dŵr sy'n gwneud cymaint dros sicrhau carthffosiaeth a chyflenwadau dŵr glân i bobl mewn gwledydd sy'n datblygu. Codwyd cyfanswm o £135.00 – swm y bydd Llywodraeth San Steffan yn ei ddyblu fel rhan o apêl arbennig yr elusen ar hyn o bryd.

Bwriad Gwilym Morus Baird yw rhyddhau albwm yn cynnwys rhai o'r cyfansoddiadau am afon Leri a'r gobaith yw cael noson lansio i ddathlu'r achlysur hwnnw hefyd yn y flwyddyn newydd.

Y Gair Olaf



Symudais i Dal-y-bont rhyw ddwy flynedd yn ôl, ond dim ond nawr dwi wedi datrys dirgelwch a oedd wedi bod yn fy nrysu ers talwm.

'Doeddwn i ddim yn gwybod yn iawn ble 'roedd y rheilffordd fach a redai drwy'r ardal yn yr 1890au, felly es i ati i dwrio yn y Llyfrgell Genedlaethol a chael fy nwylo ar lyfr amdani - a dyna, ar y tudalen cyntaf bron, ffotograff yn dangos gorsaf reilffordd Pen-y-Rhiw gydag injan stêm bach, a'r cyfan dim ond ychydig o lathenni tu ôl i fy nhŷ i.

Enw'r injan oedd *Tal-y-bont*, ond fe'i hadeiladwyd yn Stafford gyda'r enw *Treze de Maio* gan mai'r bwriad gwreiddiol oedd iddi fynd i weithio ym mhlanhigfeydd siwgr Brasil, a'i henw'n coffau'r diwrnod ym 1888 pan ddaeth caethwasiaeth i ben yn y wlad honno.

Ymestynnai'r 'Plynlimon and Hafan Tramway' am ryw saith milltir o Landre (Llanfihangel ar y pryd) i'r chweleri a'r mwynfeydd plwm yn y bryniau ar lannau afonydd Leri a Chyneiniog, yn arbennig chwari Hafan a ddarparodd llawer o gerrig ar gyfer y prom yn Aberystwyth.

Gallai pobl ddal trên yn Nhal-y-bont a chysylltu gyda rheilffordd y Cambrian i deithio i unrhyw le yn y wlad - ond dim ond unwaith yr wythnos!

Caewyd y rheilffordd a'r gweithiau i gyd o fewn ychydig o flynyddoedd oherwydd diffyg masnach, ond mae saith cerbyd o'r P&H wedi goroesi - er wedi'u hailadeiladu'n sylweddol - ar reilffordd Cwm Rheidol. Mae'r trenau bach wedi hen ymadael, ond mewn sawl man mae'n bosibl gweld o hyd lle yr oedden nhw'n arfer rhedeg.

David Moore

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

HUW LEWIS

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM

Glanyrafon Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK**
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 42221

GOLCHDY LLANBADARN

**CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON**



**JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459**

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrw: £7.95 Dau gwrw £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

CHWARAEON



Jamie Barron ar fin dal croesiad yn y gêm yn erbyn Ceinewydd

O Drwch Blewyn

Mae'r ffin rhwng ennill y cholli yn gallu bod yn denau iawn mewn gemau pêl-droed a dyma fu hanes tîm Tal-y-bont yng nghystadleuaeth Cwpan Emrys Morgan eleni. Ar 21 Tachwedd chwaraewyd yn ail rownd y gystadleuaeth yn erbyn Ceinewydd ar Gae'r Olyn Galch. Ar yr egwyl roedd Tal-y-bont 3-1 ar y blaen ond fe darodd Ceinewydd yn ôl ag unioni'r sgôr. Wedi amser ychwanegol rhaid oedd setlo'r cyfan gyda chiciau o'r smoty. Unwaith yn rhagor roedd y sgôr yn gyfartal ond wedi i Robbie Southgate rwydo arbedodd Jamie Barron y gic nesaf i ennill yr ornest.

Bythefnos yn ddiweddarach bant yn Llambod, roedd Tal-y-bont 3-1 ar y blaen ond unwaith eto ildwyd goliau yn yr ail hanner, gyda'r tîm cartref yn cipio'r fuddugoliaeth o drwch blewyn yn y pum munud olaf. Y sgorwyr i Dal-y-bont oedd Barri Southgate, Jamie Surgey a Callum Pritchard.

Golff

Pob dymuniad da i Stephen Evans, Elgar House, Tal-y-bont, sydd newydd ddechrau ar ei dymor fel capten Clwb Borth ac Ynyslas.



argraffu da
am bris da



Y Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com



Gruff Lewis

Byw ar y ffordd

I lawer mae cael eich talu am reidio beic yn freuddwyd na ellir mo'i gwreiddo. Ond i'r beiciwr o Dal-y-bont, Gruff Lewis daeth y freuddwyd yn fyw.

Ers pum mlynedd mae Gruff, sydd newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 28, wedi bod yn ennill ei fara menyf ar y ffordd, ac wedi mwynhau cryn lwyddiant.

Ac yn awr mae ar drothwy pennod newydd gyffrous yn rhengoedd un o dimoedd proffesiynol mwyaf blaenllaw gwledydd Prydain, Madison Genesis.

Dechreuodd Gruff, a fagwyd ym Mhenrhyn-coch, ei yrfa broffesiynol yn 22 oed gyda thîm UK Youth, a chafodd gryn gefnogaeth gan y cawr o Sweden sydd bellach yn byw ym Mro Morgannwg, Magnus Backstedt, gan ennill pencampwriaeth ffordd Cymru.

Yna cafodd flwyddyn gyda Metaltek, a chael profiadau diddorol o rasio yng nogledd Affrica – Tour Algeria a Tour Morocco, cyn ymuno â'i dim presennol, Pedal Heaven ar ddechrau 2014.

Roedd Gruff newydd dreulio dau fis yn ymarfer yn haul gaeaf de Sbaen, hafan i lawer o enwau mawr byd beicio'r cyfandir yn ystod misoedd oer y gaeaf, pan ddaeth y cynnig i ymuno â Pedal Heaven, a hynny ychydig ddiwrnodau yn unig wedi iddo gael gwybod bod ei dim blaenorol wedi colli ei noddwr.

Mae'n siŵr y bydd rhai o ddarllenwyr *Papur Pawb* wedi bod yn gwyltio'r beiciwyr yn gwibio o amgylch y castell ar Hen Goleg yn Aberystwyth ar nos Wener olaf mis Mai. Dyna'r *Tour Series* sy'n rhan o Wyl Feicio Aberystwyth. Hon yw'r gyfres o rasys yng nghanol trefi a dinasoedd sy'n cael ei dangos ar ITV4, ac a roddodd y cyfle cyntaf i Gruff serennu.

Bu'n gyson ymysg y 50 beiciwr gorau ym Mhrydain yn ystod 2015, ac yn aml yn y 10 uchaf, gan sicrhau'r 5ed safle yn Redditch.

Eleni hefyd cafodd lwyddiant wrth rasio yn erbyn y cloc – 10fed ym Mhencampwriaeth Prydain, a neb llai na chyn-enillydd y Tour de France, Bradley Wiggins yn gyntaf.

Yr awydd am annibyniaeth ar rhyddid i fynd o Benrhyn-coch i'r dre heb orfod dibynnu ar fws na char gynnodd ei ddiddordeb mewn beicio. Yn bymtheg oed ymunodd â Chlwb Beicio Ystwyth, a gwelwyd bod ganddo ddawn yn fuan iawn wrth iddo gwblhau prawf 10 milltir yr erbyn y cloc mewn 23 munud; tipyn o gamp.

Ym mis Chwefror bydd yn ymuno â'i dim newydd, Madison Genesis, a fydd yn cynnal lansiad yn ystod arddangosfa feics fawreddog IceBike, cyn treulio cyfnod yn ymarfer yng ngwres gwanwyn cynnar ynys Mallorca.

Ac yna bydd y rasio'n dechrau, ar teithio diddiwedd yn ei fan bersonol, a ddarparwyd gan un o'i noddwyr, Safety Net Services o Aberystwyth.

Uchelgais Gruff yw cael rasio yn erbyn y gorau, ac mae ei fryd ar gael ei ddewis i gynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn Queensland, Awstralia yn 2018. Mae'r Tour of Britain, prif ras broffesiynol Prydain, hefyd yn bosiblwydd, a phwy a wyr, efallai y bydd cymal yn dod i Aber, fel ag y bu flynyddoedd yn ôl, yn nyddiau'r Ras Laeth.

Wrth drafod y byd beicio dros ddiod yn y Llew Gwyn, mae'n amlwg bod Gruff, sydd hefyd yn un o sylwbywyr S4C ar y *Tour de France*, yn llwyr ymroddedig i'w gamp ac yn edrych ymlaen yn fawr at y tymor newydd.

Ond cyn hynny, mae milltiroedd lawer i'w cwblhau ar y ffyrdd, gan ddechrau gyda phythefnos o ymarfer yn Lanzarote.

Ac wrth gwrs, gyda throad y rhod ar olwyn, mi fydd angen peintio'r fan yn lifrau ei noddwr newydd hefyd.